

**HAFREN** | THE ENTERTAINMENT VENUE

Welsh Language Statement

# Hafren Welsh Language Statement

Please note that Hafren is managed by NPTC Group of colleges who have a Welsh Language Policy to comply with the Welsh Government Welsh Language Standards. This covers The Hafren operation. This policy statement is **ADDITIONAL** to the detailed scheme.

From 1 April 2018 onwards, the NPTC Group of Colleges has replaced its 'Welsh Language Scheme' with a 'Welsh Language Policy'. The Policy describes how the College will ensure statutory compliance with the Welsh Government's Welsh Language Standards.

The Policy strengthens the College's commitment to the principle and the practice of equality of treatment with respect to the English and Welsh languages. The Policy is subject to regular monitoring, review and annual reporting on the achievement of targets contained within the Policy. A copy of the Policy is available at College site public reception areas and may be downloaded electronically from: [www.nptcgroup.ac.uk/wp-content/uploads/2018/12/WELSH-LANGUAGE-POLICY-FINAL-@-241018.pdf](http://www.nptcgroup.ac.uk/wp-content/uploads/2018/12/WELSH-LANGUAGE-POLICY-FINAL-@-241018.pdf)

## Policy

The Policy is primarily designed to ensure statutory compliance with Welsh Government legislation – **Compliance Notice Section 44 of the Welsh Language (Wales) Measure 2011** - in order to:

- provide more high quality services, both oral and written, through the medium of Welsh;
- provide a wider range of Welsh language services;
- provide a mechanism for establishing our current position, to enable us to set targets and report on future performance;
- identify our investment in developing Welsh language skills;
- inform our stakeholders, including staff and the public of the policy.

The principle of treating the Welsh and English languages on a basis of equality is part of our wider commitment to equality of opportunity for all students and staff and respecting the rich diversity which manifests itself in the community which the College serves, including:

- strengthening the College's commitment to the principle and the practice of equality of treatment with respect to the English and Welsh languages in the delivery of services to the public in Wales;
- creating a supportive environment that encourages Welsh-speaking students, staff and members of the public to actively use the language both inside and out of the classroom;
- raising awareness and ensure that non-Welsh speakers are introduced to, and become involved with, the Welsh language and culture.

## Procedure

The Policy will be implemented primarily through:

- protocols to ensure statutory compliance, transparency and accountability in relation to specific service delivery standards, policy making standards, operational standards, record keeping standards and standards relating to supplementary matters. In order to support staff in complying with Standards, the College has also developed a summary of the key principles in the form of **10 Golden Rules**;
- developing a strategic approach to recruiting and training staff to close the skills gap between current capacity and the requirements of the 'Standards' - as well as prioritising the future delivery of vocational subject module options bilingually or through the medium of Welsh to reflect the Welsh Government priority subject areas

(Extract taken from NPTC Group of Colleges Welsh Language Policy to be reviewed in Spring Term 2021)

The Standards apply to key policy areas and administrative procedures such as correspondence, phone calls, all documentation, reception services, policies, HR procedures, publicity and signage.

In order to be able to conform to the above principles all current staff and future new appointments at NPTC Group of Colleges are required to complete an online Welsh Language Course.

Hafren assists in producing, promoting and presenting work in English, Welsh and bilingually. We will continue to programme work in the language of choice of the artists with whom we work.

We are an organisation that supports and encourages accessibility to our programme and services and this includes providing a consistent service to our Welsh-speaking audiences in a language of their choice.

We welcome correspondence in both English and Welsh and aim to provide an equal standard of service in both languages.

We see this Statement as forming part of a progressive and forward looking commitment within the arts to promote a bilingual Wales.

This policy seeks to:

- Offer a service of equal standing to Welsh and English speakers
- Understand and acknowledge the bilingual nature of Wales
- Give a wider access to our activities
- Raise our Welsh profile and recognise ownership by Welsh speakers and non-Welsh speakers alike
- Strengthen our ability to meet the requirements of funders, stakeholders and other partners
- Ensure conformity to the linguistic and cultural specification in legislation and best practice guidance as approved by the Welsh Language Commissioner.

## External Communications

### Corporate Identity

The word Hafren, when used to indicate our name, is already bilingual. Hafren's public image and corporate identity will be fully bilingual. This includes the use of strap lines, letterheads, business cards, compliment slips and other stationery, email signatures, signs and all other business documentation.

### Signs and Signage

All internal, external and electronic signs (including temporary signs) will be bilingual.

The design of all signs will take into account guidelines on bilingual design as issued by the Welsh Language Commissioner, and be equal in terms of format, size, quality, legibility and prominence.

#### Target for 19/20 completed.

### Corporate and Marketing Literature

All printed corporate publications and any document intended for general external communication will be bilingual.

#### Target for 19/20 completed.

Our main marketing literature will include fully bilingual general information (e.g. dates, times, public information etc.). Where the performance is in English, there will be a Welsh synopsis, when the performance is in Welsh, there will be an English synopsis. Exceptions to this general principle may be advertising or publicity campaigns aimed at a particular target audience outside Wales.

Marketing literature received from incoming companies, film distributors and arts etc. will be accepted in English.

All external displays, public information stands and exhibitions will treat the two languages on a basis of equality, except where the organisers of the event rule that one of the two languages must be predominant.

#### Target for 19/20 completed.

We will capture language preference information from our customers whenever possible and use this data to communicate through their method and language of choice.

## Surveys, Questionnaires and Focus Groups

All surveys and questionnaires produced by Hafren will be bilingual.

### 🕒 **Target for 19/20 completed.**

---

Any in-coming artists, companies or marketing organisations who wish to distribute surveys and questionnaires to Hafren users will be required to get prior authorisation from us. We will make decisions whether or not to allow the distribution of questionnaires without translation on a case-by-case basis.

## Front of House

We aim to ensure that a proportion of our customer-facing staff (volunteer ushers, front of house sales team and box office staff) can communicate bilingually.

We commit to ensuring that we will have Welsh-speaking staff available to support our Welsh language event programme.

Welsh-speaking staff will wear Iaith Gwaith badges.

### 🕒 **Target for 19/20 completed.**

---

## Written Correspondence

Hafren welcomes written correspondence in Welsh and English and will reply in the original language of communication wherever possible.

## Telephone Communications

Hafren Box Office will have a bilingual answer machine message.

### 🕒 **Target for 19/20 completed.**

---

An initial response will be made bilingually. If the member of staff on duty does not speak Welsh we will give the customer the option of being referred to a Welsh speaker wherever possible, but recognise that this may not always be possible.

### 🕒 **Target for 19/20 completed.**

---

Individual staff members who are Welsh speakers will be encouraged to leave bilingual messages with their voicemail.

### 🕒 **Target for 19/20 completed.**

---

## Digital and Social Marketing / Information Technology

Hafren has a fully bilingual web presence in accordance with the Welsh Language Commissioner's guidelines. Where content is included from outside sources including customers, other cultural organisations, our creative community etc. content will be accepted in Welsh or English only. Blog posts are accepted in English or Welsh and are not translated. News items will be translated whenever possible.

### Target for 19/20 completed.

Customers will be able to register language choice as one of a number of communication preferences.

All staff whose work includes written communications through the medium of Welsh will be supplied with any necessary software, including Welsh fonts, Welsh spell-checkers etc.

### Target for 19/20 completed.

E-Flyers will be sent out in bilingually wherever possible.

### Target for 19/20 completed.

Our social media presence will include a mix of English and bilingual communications plus original content produced in Welsh. Content provided by outside sources will be posted in the language of origin.

## Media Relations

Media Relations will be issued according to the language preference of the recipient media organisation, journalist or publication.

Where possible we will ensure that Welsh speakers are available to undertake interviews with Welsh language press and broadcast media.

## Recruitment

All external recruitment advertising is undertaken by our parent organisation – NPTC Group of Colleges.

All external recruitment advertising will be bilingual except for posts where Welsh is an essential requirement. These will be advertised in Welsh with an English summary.

We will identify posts where the ability to speak Welsh is essential and those where it is desirable, to identify the level of proficiency expected in each case and to formulate job descriptions and personnel specifications as appropriate.

Managers responsible for recruiting staff will assess our needs for Welsh-speaking staff when making appointments and will keep this aspect of recruitment under constant review.

### **Translation Services**

We will use Welsh Language Commissioner-approved translators or translators who have a specialist understanding of a specific art form or topic.

NPTC Group has enhanced the staffing in order to achieve the new standards and in addition to a Bi-Lingual Officer there is also a Bi-lingual Development Co-ordinator, a Translation Officer and a simultaneous Translation Officer. These additional members of staff have already assisted Hafren in ensuring that all the signage is correct and appropriate.

🕒 **Target for 19/20 completed.**

---

## Internal Communications

### **Documents, contracts and other communications**

All internal documents, contract and other communications shall be produced in Welsh and English at our discretion unless they are being addressed to an individual and that individual has expressed a preference for one language over another.

### **Strategic Management meetings**

Agendas and minutes of Strategic Management meetings shall be produced in English unless otherwise requested.

### **Welsh-Speaking Staff**

We respect that some of our staff may be Welsh speakers and encourage staff to communicate in the language of their choice within the workplace.

We will not expect Welsh-speaking staff to act as translators for written or spoken communications unless this forms a part of their job description and they have the necessary skills to enable them to deliver this service to a high standard.



## Staff Development

We encourage our customer-facing staff to learn Welsh or attend refresher courses by offering financial assistance for Welsh lessons as part of their working time, where funding and time resources allow.

🎯 **Target for 19/20 ongoing.**

---

## Informing Staff

The NPTC Group Welsh Language Scheme is incorporated into the company's policies and procedures. It is available to all staff via the intranet on SharePoint.

This Hafren Policy Statement will be available on the Hafren website for staff and customers' information.

## Review of Policy

The NPTC Group will review the Welsh Language Standards Project at Strategic level on an annual basis and improvements made where possible.

## Complaints and suggestions for Improvement

Complaints related to the NPTC Group policy, or suggestions for improvement, should be directed to the CEO NPTC Group. Complaints related to this Hafren Statement, or suggestions for improvement, should be directed to the Theatre Manager in the first instance, who may refer the matter to the appropriate department within the NPTC College Group.

# Targets for 2020/21



**To fully incorporate the Welsh Language into the new development of the Hafren website by offering an initial splash page where the browser can choose from a Welsh or English flag in which language to proceed in.**



**To increase the number of bilingual and/or Welsh productions within the Hafren Programme. Discussions with Theatr Geneadathol are already taking place to establish a consistent touring pattern.**



**Give wider access to our programme by considering the location of Welsh productions and including them into the Satellite Stages programme.**



**To encourage Ysgol Theatr Maldwyn productions to tour out to other locations with the productions that they create in Hafren.**

**HAFREN**

Y LLEOLIAD AR GYFER ADLONIAN

Datganiad Iaith Gymraeg Hafren

## Datganiad Iaith Gymraeg Hafren

Sylwer bod Hafren yn cael ei reoli gan Grŵp Colegau NPTC sydd â Pholisi Iaith Gymraeg i gydymffurfio â Safonau Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys y broses o weithredu Hafren. Mae'r datganiad polisi hwn yn YCHWANEGOL at y cynllun manwl.

O 1 Ebrill 2018 ymlaen, mae Grŵp Colegau NPTC wedi disodli ei 'Gynllun Iaith Gymraeg' gyda 'Pholisi Iaith Gymraeg'. Mae'r Polisi'n disgrifio sut bydd y Coleg yn sicrhau cydymffurfiaeth statudol â Safonau Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru.

Mae'r Polisi'n cryfhau ymrwymiad y Coleg i'r egwyddor a'r arfer o drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Bob blwyddyn, bydd y Polisi'n cael ei fonitro, ei adolygu ac yn destun adrodd rheolaidd er mwyn cyflawni'r targedau sydd wedi'u cynnwys yn y Polisi. Mae copi o'r Polisi ar gael yn nerbynfeydd cyhoeddus safle'r Coleg a gellir ei lawrlwytho yn electronig o:

[www.nptcgroup.ac.uk/wp-content/uploads/2018/12/WELSH-LANGUAGE-POLICY-FINAL-@-241018.pdf](http://www.nptcgroup.ac.uk/wp-content/uploads/2018/12/WELSH-LANGUAGE-POLICY-FINAL-@-241018.pdf)

## Polisi

Mae'r Polisi wedi'i gynllunio'n bennaf i sicrhau cydymffurfiaeth statudol â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru – **Hysbysiad Cydymffurfio Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** - er mwyn:

- darparu mwy o wasanaethau o ansawdd uchel, ar lafar ac yn ysgrifenedig, drwy gyfrwng y Gymraeg;
- darparu ystod ehangach o wasanaethau Cymraeg;
- darparu dull ar gyfer sefydlu ein sefyllfa bresennol, i'n galluogi i osod targedau ac adrodd ar berfformiad yn y dyfodol;
- nodi ein buddsoddiad mewn datblygu sgiliau iaith Gymraeg;
- rhoi gwybod am y polisi i'n rhanddeiliaid, gan gynnwys staff a'r cyhoedd.

Mae'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal yn rhan o'n hymrwymiad ehangach i gyfle cyfartal i bob myfyriwr ac aelod o staff a pharchu'r amrywiaeth gyfoethog sy'n amlygu ei hun yn y gymuned y mae'r Coleg yn ei gwasanaethu, gan gynnwys y canlynol:

- cryfhau ymrwymiad y Coleg i'r egwyddor a'r arfer o driniaeth gyfartal yng nghyswllt y Gymraeg a'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru;
- creu amgylchedd cefnogol sy'n annog myfyrwyr, staff ac aelodau o'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith i ddefnyddio'r iaith y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth;
- codi ymwybyddiaeth a sicrhau bod y di-Gymraeg yn cael eu cyflwyno i'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg, ac yn ymwneud â hi.

## Gweithdrefn

Bydd y Polisi'n cael ei weithredu'n bennaf drwy'r canlynol:

- protocolau i sicrhau cydymffurfiaeth statudol, tryloywder ac atebolrwydd yng nghyswllt safonau penodol ar gyfer darparu gwasanaethau, safonau llunio polisiau, safonau gweithredol, safonau cadw cofnodion a safonau sy'n ymwneud â materion atodol. Er mwyn cefnogi staff i gydymffurfio â'r Safonau, mae'r Coleg hefyd wedi datblygu crynodeb o'r egwyddorion allweddol ar ffurf 10 Rheol Aur;
- datblygu dull strategol o recriwtio a hyfforddi staff i gau'r bwlch sgiliau rhwng y capasiti presennol a gofynion y 'Safonau' - yn ogystal â blaenoriaethu'r broses o gyflwyno dewisiadau modiwlau pwnc galwedigaethol yn y dyfodol yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg i adlewyrchu meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru

(Dyfyniad a gymerwyd o Bolisi Iaith Gymraeg Grŵp Colegau NPTC i'w adolygu yn Nhymor y Gwanwyn 2021)

Mae'r Safonau'n berthnasol i feysydd polisi allweddol a gweithdrefnau gweinyddol fel gohebiaeth, galwadau ffôn, yr holl ddogfennau, gwasanaethau derbynfa, polisiau, gweithdrefnau Adnoddau Dynol, cyhoeddusrwydd ac arwyddion.

Er mwyn gallu cydymffurfio â'r egwyddorion uchod, mae'n ofynnol i'r holl staff presennol a phenodiadau newydd yng Ngrŵp Colegau NPTC gwblhau Cwrs Iaith Gymraeg ar-lein.

Mae Hafren yn helpu i gynhyrchu, hyrwyddo a chyflwyno gwaith yn Gymraeg, Saesneg ac yn ddwyieithog. Byddwn yn parhau i weithio drwy'r rhaglen yn newis iaith yr artistiaid yr ydym yn gweithio gyda nhw.

Rydym yn sefydliad sy'n cefnogi ac yn annog hygyrchedd i'n rhaglen a'n gwasanaethau ac mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaeth cyson i'n cynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith mewn iaith o'u dewis.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg ac yn anelu at ddarparu gwasanaeth o safon gyfartal yn y ddwy iaith.

Credwn fod y Datganiad hwn yn rhan o ymrwymiad blaengar ac arloesol ym maes y celfyddydau i hyrwyddo Cymru ddwyieithog.

Nod y polisi hwn yw:

- Cynnig gwasanaeth o statws cyfartal i siaradwyr Cymraeg a Saesneg
- Deall a chydabod natur ddwyieithog Cymru
- Rhoi mynediad ehangach i'n gweithgareddau
- Codi ein proffil Cymraeg a chydabod perchnogaeth gan siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg fel ei gilydd
- Cryfhau ein gallu i fodloni gofynion cyllidwyr, rhanddeiliaid a phartneriaid eraill
- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r fanyleb ieithyddol a diwylliannol mewn deddfwriaeth a chanllawiau arfer gorau fel y cawsant eu cymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg.

# Dulliau Cyfathrebu Allanol

## Hunaniaeth Gorfforaethol

Mae'r gair Hafren, pan gaiff ei ddefnyddio i nodi ein henw, eisoes yn ddwyieithog. Bydd delwedd gyhoeddus a hunaniaeth gorfforaethol Hafren yn gwbl ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys defnyddio is-benawdau, pennyn llythyrau, cardiau busnes, slipiau cyfarch a deunydd ysgrifennu eraill, llofnodion e-bost, arwyddion a'r holl ddogfennau busnes eraill.

## Arwyddion

Bydd yr holl arwyddion mewnol, allanol ac electronig (gan gynnwys arwyddion dros dro) yn ddwyieithog.

Bydd dyluniad pob arwydd yn ystyried canllawiau ar ddylunio dwyieithog fel y cawsant eu cyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg, ac yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

### Targed ar gyfer 19/20 wedi'i gwblhau.

## Llenyddiaeth Gorfforaethol a Marchnata

Bydd yr holl gyhoeddiadau corfforaethol a gaiff eu hargraffu ac unrhyw ddogfen a fwriedir ar gyfer gohebiaeth allanol gyffredinol yn ddwyieithog.

### Targed ar gyfer 19/20 wedi'i gwblhau.

Bydd ein prif lenyddiaeth marchnata yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol gwbl ddwyieithog (e.e. dyddiadau, amseroedd, gwybodaeth gyhoeddus ac ati). Lle mae'r perfformiad yn Saesneg, bydd crynodeb Cymraeg, pan fydd y perfformiad yn Gymraeg, bydd crynodeb Saesneg. Gall eithriadau i'r egwyddor gyffredinol gynnwys ymgyrchoedd hysbysebu neu gyhoeddusrwydd wedi'u hanelu at gynulleidfa darged benodol y tu allan i Gymru.

Bydd llenyddiaeth marchnata a dderbynnir gan gwmnïau newydd, dosbarthwyr ffilmiau a'r celfyddydau ac ati yn cael eu derbyn yn Saesneg.

Bydd yr holl arddangosfeydd allanol, stondinau gwybodaeth i'r cyhoedd ac arddangosfeydd yn trin y ddwy iaith yn gyfartal, ac eithrio pan fo trefnwyr y digwyddiad yn penderfynu bod un o'r ddwy iaith yn bwysicach.

### Targed ar gyfer 19/20 wedi'i gwblhau.

Byddwn yn casglu gwybodaeth am ddewis iaith gan ein cwsmeriaid lle bynnag y bo modd ac yn defnyddio'r data hwn i gyfathrebu drwy eu dull a'u dewis iaith.

## Arolygon, Holiaduron a Grwpiau Ffocws

Bydd yr holl arolygon a holiaduron a gaiff eu llunio gan Hafren yn ddwyieithog.

### 🕒 Targed ar gyfer 19/20 wedi'i gwblhau.

Bydd yn ofynnol i unrhyw artist, cwmni neu sefydliad marchnata newydd sy'n dymuno dosbarthu arolygon a holiaduron i ddefnyddwyr Hafren gael caniatâd ymlaen llaw gennym ni. Byddwn yn gwneud penderfyniadau ynghylch a ydym am ganiatáu dosbarthu holiaduron heb eu cyfieithu ai peidio fesul achos.

## Blaen y Tŷ

Ein nod yw sicrhau y gall cyfran o'n staff sy'n dod i gysylltiad â chwsmeriaid (tywyswyr gwirfoddol, tîm gwerthu blaen y tŷ a staff y swyddfa docynnau) gyfathrebu'n ddwyieithog.

Rydym yn ymrwmo i sicrhau y bydd gennym staff Cymraeg eu hiaith ar gael i gefnogi ein rhaglen digwyddiadau Cymraeg.

Bydd staff Cymraeg eu hiaith yn gwisgo bathodynau iaith Gwaith.

### 🕒 Targed ar gyfer 19/20 wedi'i gwblhau.

## Gohebiaeth Ysgrifenedig

Mae Hafren yn croesawu gohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg ac yn Saesneg a bydd yn ymateb yn iaith wreiddiol yr ohebiaeth lle bynnag y bo modd.

## Cyfathrebu Dros y Ffôn

Bydd neges peiriant ateb Swyddfa Docynnau Hafren yn ddwyieithog.

### 🕒 Targed ar gyfer 19/20 wedi'i gwblhau.

Bydd ymateb cychwynnol yn cael ei wneud yn ddwyieithog. Os nad yw'r aelod o staff sydd ar ddyletswydd yn siarad Cymraeg byddwn yn rhoi'r dewis i'r cwsmer gael ei gyfeirio at siaradwr Cymraeg lle bynnag y bo modd, ond yn cydnabod efallai na fydd hyn yn bosibl bob amser.

### 🕒 Targed ar gyfer 19/20 wedi'i gwblhau.

Bydd aelodau unigol o staff sy'n siarad Cymraeg yn cael eu hannog i adael negeseuon dwyieithog gyda'u neges llais.

### 🕒 Targed ar gyfer 19/20 wedi'i gwblhau.

## **Marchnata Digidol a Chymdeithasol / Technoleg Gwybodaeth**

Mae presenoldeb Hafren ar y we yn gwbl ddwyieithog yn unol â chanllawiau Comisiynydd y Gymraeg. Lle caiff cynnwys ei nodi o ffynonellau allanol gan gynnwys cwsmeriaid, sefydliadau diwylliannol eraill, ein cymuned greadigol ac ati bydd yn cael ei dderbyn yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unig. Derbynnir negeseuon blog yn Gymraeg nac yn Saesneg ac ni fyddant yn cael eu cyfieithu. Bydd eitemau newyddion yn cael eu cyfieithu lle bynnag y bo modd.

### **🕒 Targed ar gyfer 19/20 wedi'i gwblhau.**

Bydd cwsmeriaid yn gallu cofrestru dewis iaith fel un o nifer o ddewisiadau cyfathrebu.

Bydd yr holl staff y mae eu gwaith yn cynnwys gohebiaeth ysgrifenedig drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael unrhyw feddalwedd angenrheidiol, gan gynnwys ffontiau Cymraeg, gwirwyr sillafu Cymraeg ac ati.

### **🕒 Targed ar gyfer 19/20 wedi'i gwblhau.**

Bydd E-dafenni yn cael eu hanfon yn ddwyieithog lle bynnag y bo modd.

### **🕒 Targed ar gyfer 19/20 wedi'i gwblhau.**

Bydd ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys cymysgedd o ohebiaeth Gymraeg a dwyieithog ynghyd â chynnwys gwreiddiol a gynhyrchir yn Gymraeg.

Bydd cynnwys a ddarperir gan ffynonellau allanol yn cael ei bostio yn yr iaith wreiddiol.

## **Cysylltiadau â'r Cyfryngau**

Bydd Cysylltiadau â'r Cyfryngau yn cael eu cyhoeddi yn ôl dewis iaith y sefydliad cyfryngau, newyddiadurwr neu'r cyhoeddiad sy'n eu derbyn.

Lle bo modd, byddwn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael i gynnal cyfweiliadau â'r wasg a'r cyfryngau darlledu Cymraeg.

## **Recriwtio**

Mae'r holl hysbysebion recriwtio allanol yn cael eu gwneud gan ein rhiant-sefydliad – Grŵp Colegau NPTC.

Bydd yr holl hysbysebion recriwtio allanol yn ddwyieithog ac eithrio swyddi lle mae'r Gymraeg yn ofyniad hanfodol. Bydd y rhain yn cael eu hysbysebu yn Gymraeg gyda chrynodeb Saesneg.

Byddwn yn nodi swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol a'r rhai lle mae'n ddymunol, i nodi lefel y hyfedredd a ddisgwylir ym mhob achos ac i lunio disgrifiadau swydd a manylebau personél fel y bo'n briodol.



Bydd rheolwyr sy'n gyfrifol am recriwtio staff yn asesu ein hanghenion am staff Cymraeg eu hiaith wrth wneud penodiadau a byddant yn parhau i adolygu'r agwedd hon ar recriwtio yn gyson.

## Gwasanaethau Cyfieithu

Byddwn yn defnyddio cyfieithwyr a gymeradwywyd gan Gomisiynydd y Gymraeg neu gyfieithwyr a chanddynt dealltwriaeth arbenigol o ffurf neu bwnc celf penodol.

Mae gan Grŵp NPTC fwy o staff er mwyn cyflawni'r safonau newydd ac yn ogystal â chael Swyddog Dwyieithog mae ganddo hefyd Gydgyssylltydd Datblygu Dwyieithog, Swyddog Cyfieithu a Swyddog Cyfieithu ar y pryd. Mae'r aelodau ychwanegol hyn o staff eisoes wedi helpu Hafren i sicrhau bod yr holl arwyddion yn gywir ac yn briodol.

🕒 **Targed ar gyfer 19/20 wedi'i gwblhau.**

## Dulliau Cyfathrebu Mewnol

### Dogfennau, contractau a gohebiaeth arall

Bydd yr holl ddogfennau, contractau a gohebiaeth fewnol arall yn cael eu llunio yn Gymraeg ac yn Saesneg yn ôl ein disgrisiwn oni bai eu bod yn cael eu rhoi i unigolyn a bod yr unigolyn hwnnw wedi mynegi dewis un iaith dros y llall.

### Cyfarfodydd Rheoli Strategol

Bydd agendâu a chofnodion cyfarfodydd Rheoli Strategol yn cael eu llunio yn Saesneg oni ofynnir fel arall.

### Staff sy'n Siarad Cymraeg

Rydym yn parchu y gall rhai o'n staff fod yn siaradwyr Cymraeg ac yn annog staff i gyfathrebu yn eu dewis iaith yn y gweithle.

Ni fyddwn yn disgwyl i staff Cymraeg eu hiaith weithredu fel cyfieithwyr ar gyfer dulliau cyfathrebu ysgrifenedig neu lafar oni bai bod hyn yn rhan o'u disgrifiad swydd a bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol i'w galluogi i ddarparu'r gwasanaeth hwn i safon uchel.

## Datblygu Staff

Rydym yn annog ein staff sy'n wynebu cwsmeriaid i ddysgu Cymraeg neu fynd ar gyrsiau gloywi drwy gynnig cymorth ariannol ar gyfer gwersi Cymraeg fel rhan o'u hamser gwaith, lle mae cyllid ac adnoddau amser yn caniatáu.

### 🎯 Targed ar gyfer 19/20 yn barhaus.

## Hysbysu Staff

Mae Cynllun Iaith Gymraeg Grŵp NPTC wedi'i ymgorffori ym mholisiau a gweithdrefnau'r cwmni. Mae ar gael i'r holl staff drwy'r fewnwyd ar SharePoint.

Bydd Datganiad Polisi Hafren ar gael ar wefan Hafren er gwybodaeth i staff a chwsmeriaid.

## Adolygu'r Polisi

Bydd Grŵp NPTC yn adolygu Prosiect Safonau'r Gymraeg ar lefel Strategol bob blwyddyn a bydd gwelliannau'n cael eu rhoi ar waith lle y bo'n bosibl.

## Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer Gwella

Dylid cyfeirio cwynion sy'n ymwneud â pholisi Grŵp NPTC, neu awgrymiadau ar gyfer gwella, at Brif Swyddog Gweithredol y Grŵp NPTC. Dylid cyfeirio cwynion sy'n ymwneud â'r Datganiad Hafren hwn, neu awgrymiadau ar gyfer gwella, at y Rheolwr Theatr yn y lle cyntaf, a all gyfeirio'r mater at yr adran briodol yng Ngrŵp Coleg NPTC.

# Targedau ar gyfer 2020/21



**Ymgorffori'r Gymraeg yn llawn yn y gwaith o ddatblygu gwefan newydd Hafren drwy gynnig rhagdudalen gychwynnol lle gall y sawl sy'n pori ddewis baner Gymraeg neu Saesneg i nodi pa iaith i fwrw ymlaen ynddi.**



**Cynyddu nifer y cynyrchiadau dwyieithog a/neu Gymraeg yn Rhaglen Hafren. Mae trafodaethau gyda'r Theatr Genedlaethol eisoes yn cael eu cynnal i sefydlu patrwm teithiol cyson.**



**Rhoi mynediad ehangach i'n rhaglen drwy ystyried lleoliad cynyrchiadau o Gymru a'u cynnwys yn y rhaglen Satellite Stages.**



**Annog cynyrchiadau Ysgol Theatr Maldwyn i fynd ar daith i leoliadau eraill gyda'r cynyrchiadau y maent yn eu creu yn Hafren.**

(Bydd y datganiad hwn yn cael ei adolygu ym mis Medi 2021)